COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 126

Amseru: Brys – rhaid cytuno i'r lleoliad erbyn 30/09/19 a'i gychwyn erbyn 01/11/19

Teitl: Interniaeth ar y cyd â'r Brifysgol Agored

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Gweithlu

Crynodeb Gweithredol:
Unwaith yn rhagor, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cynnig cyfle ar gyfer Interniaeth Myfyrwyr wedi'i noddi gan Santander (gweler Penderfyniad DLI 080). Cyflwynodd SCHTh ddatganiad o ddiddordeb ar gyfer cymryd rhan yn y cynllun, a derbyniwyd y cais fel lleoliad addas. Bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru'n marchnata'r cyfle i bob myfyriwr cymwys (y rhai sy'n bwriadu graddio'r haf hwn). Bydd y myfyriwr yn derbyn £315 yr wythnos, a bydd y lleoliad yn para hyd at 10 wythnos. Ariennir 50% gan Santander, gyda SCHTh yn ariannu'r hanner arall. Gan hynny, y gost ar gyfer SCHTh fydd £1,575 dros gyfnod o 10 wythnos. Bwriedir lleoli'r myfyriwr gyda'r Tîm Sicrwydd o fewn y swyddfa, a bydd yn canolbwyntio ar gefnogi'r amserlen craffu o ddydd i ddydd gan gynnwys blaengynllunio, trefnu a chefnogi gweinyddu cyfarfodydd, ysgrifennu adroddiadau, adolygu agweddau amrywiol o berfformiad yr heddlu ac ymchwilio iddynt. Disgwylir y bydd hyn yn helpu'r Tîm Sicrwydd i ganolbwyntio ar brosiectau newydd eraill, gan gynnwys trefalu'r Cynllun Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol. Bydd SCHTh yn gyfrifol am lunio rhestr fer, cyfweld, dewis, fetio, penodi a chyflogi'r unigolyn, a bydd Santander yn rhoi grant ar gyfer hyn.

Argymhelliad:
Gofynnir i'r Comisiynydd gytuno bod SCHTh yn cyflogi myfyriwr interniaeth am 10 wythnos am £1575, mewn cydweithrediad â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, gan recriwtio rhywun yn unol â gweithdrefn recriwtio arferol SCHTh.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 16/8/2019